Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Arddangosfa Wyddoniaeth a Thechnoleg yn y Brifysgol** – mi fydd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn cerdded i'r Brifysgol erbyn 9.30 ar ddydd Mawrth, Mawrth 14eg ar gyfer Arddangosfa Wyddoniaeth a Thechnoleg. Mi fydd y disgyblion yn dychwelyd erbyn amser cinio. Gan fod nifer o ysgolion eraill yn yr arddangosfa gofynnir yn garedig i ddisgyblion wisgo crys chwys coch yr ysgol (os oes gennych un).

**Blwyddyn 3 i Fryngaer Pendinas** – mi fydd disgyblion Blwyddyn 3 yn teithio mewn bws i Benparcau ac yna yn cerdded lan i gopa Pendinas ar fore dydd Mercher, Mawrth 15fed. Cofiwch wisgo'n addas (gweler llythyr gan yr athrawon dosbarth). Gwerthfawrogir cyfraniad o £2.00 ar gyfer costau cludiant – mi fydd y taliad yn ymddangos yn eich cyfrif Parentpay heddiw.

**Pêl-droed yr Urdd** – Mi fydd yr ysgol yn trefnu tîmau ar gyfer cystadleuaeth Pêl-droed bechgyn a Phêl-droed merched yr Urdd a gynhelir ar Gaeau Blaendolau ar ddydd Mawrth, Ebrill 18fed. Mi fydd cyfle i bawb o flynyddoedd 5 a 6 ddod i'r ymarferion pob nos Iau rhwng 3:30 a 4:30 gan ddechrau ar ddydd Iau, Mawrth 16eg. Yn dilyn cyfres o ymarferion mi fydd panel o staff yn dewis y 7 chwaraewr cryfaf a 2 eilydd i'r ddau dîm fydd yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth yr Urdd. Mi fydd yr ysgol hefyd yn trefnu gemau penodol i weddill y disgyblion ddaeth i'r ymarferion yn erbyn ysgol / ysgolion lleol fel bod pawb yn cael cyfle i wisgo cit yr ysgol wrth gynrychioli'r ysgol.

**Pêl-rwyd yr Urdd** – mi fydd yr ysgol yn gweithredu system debyg ar gyfer dewis timau pêl-rwyd ar gyfer cystadleuaeth pêl-rwyd merched yr Urdd. Mi fydd yr ymarferion yn ystod amser ysgol i ferched Blynyddoedd 5 a 6.

**Eisteddfodau'r Urdd –** llongyfarchiadau i bawb fu'n cynrychioli'r ysgol yn y rhagbrofion ddydd Mercher neu yn yr Eisteddfod ddoe yn y Neuadd Fawr. Pob dymuniad da yn yr Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid ar ddydd Sadwrn, Mawrth 25ain. Cynhelir yr Eisteddfod Ddawns yn Ysgol Bro Teifi ar ddydd Mawrth, Mawrth 21ain.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams, Pennaeth**

**10/03/2023**

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

***Science and Technology Exhibition at the University*** *- Year 5 and 6 pupils will be walking up to the University by 9.30 on Tuesday, March 14th for the Science and Technology Exhibition. The pupils will return by lunchtime. As there are several other schools in the exhibition, pupils are kindly asked to wear the school's red sweatshirt (if you have one).*

***Year 3 to Pendinas Hillfort*** *- Year 3 pupils will travel by bus to Penparcau and then walk up to the summit of Pendinas on the morning of Wednesday, March 15th. Please remember to dress appropriately (see letter from class teachers). A contribution of £2.00 would be appreciated for transport costs - the payment will appear in your Parentpay account today.*

***Urdd Football*** *- The school will be organising teams for the Urdd Boys Football and Girls Football competition which will be held on Blaendolau Fields on Tuesday, April 18th. There will be an opportunity for everyone from years 5 and 6 to come to the training sessions every Thursday evening between 3.30 and 4.30 starting on Thursday, March 16th. Following a series of training sessions, a panel of staff will select the 7 strongest players and 2 substitutes for the two teams who will represent the school in the Urdd competition. The school will also organise games for the rest of the pupils who came to the training sessions against a school / local schools so that everyone has the opportunity to wear the school kit while representing the school.*

***Urdd Netball*** *- the school will implement a similar system for selecting netball teams for the Urdd girls' netball competition. The training sessions will be during the school day for Year 5 and 6 girls.*

***The Urdd Eisteddfod*** *- congratulations to everyone who represented the school in the prelims on Wednesday or in the Eisteddfod yesterday at the Great Hall. Best wishes to you all at the County Eisteddfod in Pontrhydfendigaid on Saturday, March 25th. The Dance Eisteddfod will be held at Ysgol Bro Teifi on Tuesday, March 21st.*

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

***R C Williams, Headteacher***

***10/03/2023***